# Ymchwilio i berfformiad system drwy ddefnyddio offer llif a phwysedd

## Trosolwg

Mae'r Safon hon yn ymwneud ag ymchwilio i berfformiad system drwy osod medryddion a chofnodwyr (gan gynnwys cofnodwyr data) i fesur llif a phwysedd a chasglu a gwerthuso'r data a gofnodwyd. Gallai hyn fod ar y rhwydwaith dosbarthu neu yn eiddo cwsmeriaid.

Mae’n ymwneud â phenderfynu ar natur a chwmpas ymchwiliad, gan ddefnyddio offer mesur data a chasglu a gwerthuso data.

Mae'r Safon hon ar gyfer unrhyw un sy'n ymchwilio i berfformiad system gan ddefnyddio offer llif a phwysedd ar y rhwydwaith dosbarthu dŵr neu yn eiddo cwsmeriaid.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cael gwybodaeth am berfformiad y system o ffynonellau dibynadwy

    1. penderfynu ar natur a chwmpas ymchwiliad sydd wedi'i ategu gan yr wybodaeth a gafwyd

3. penderfynu ar ddulliau ymchwilio sy’n briodol ar gyfer natur a chwmpas yr ymchwiliad dan sylw

4. rhoi manylion yr ymchwiliad i bobl berthnasol
5. dewis offer sy’n briodol ar gyfer yr ymchwiliad sydd i'w gynnal
6. cadarnhau bod offer yn gweithio’n iawn ac yn ddiogel i'w ddefnyddio
7. cadarnhau bod offer wedi'i galibradu yn unol â manylebau'r gwneuthurwr
8. dewis pwyntiau profi priodol ar gyfer defnyddio’r offer
9. defnyddio'r offer a chadarnhau ei fod yn cael ei weithredu yn unol â manylebau’r gwneuthurwr
10. cymryd camau perthnasol yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad pan fyddwch yn dod ar draws problemau gyda’r offer neu wrth ei ddefnyddio
11. tynnu'r offer ar ôl cwblhau eich ymchwiliadau yn unol â gofynion iechyd a diogelwch
12. dychwelyd yr offer mewn cyflwr addas i’r man a bennwyd ar gyfer ei gadw
13. dilyn arferion hylendid a gweithio diogel yn unol â gweithdrefnau perthnasol a gofynion statudol a rheoliadol
14. canfod y gofynion o ran casglu data o'r offer cofnodi penodedig
15. casglu gwybodaeth gywir yn unol â gofynion sefydliadol
16. cofnodi canlyniadau annormal a diffygion ar yr offer yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad
17. gwerthuso data i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion yr ymchwiliad
18. penderfynu ar argymhellion priodol sy'n cael eu hategu gan y data
19. rhoi'r canlyniadau ac unrhyw argymhellion i'r bobl briodol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. dulliau o fesur perfformiad systemau a diben gwneud hynny
    1. diben ymchwiliadau a sut mae eu cynnal

# Ymchwilio i berfformiad system drwy ddefnyddio offer llif a phwysedd

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Energy & Utility Skills |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 01 Rhag 2018 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 01 Rhag 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Energy & Utility Skills |
| **RCU gwreiddiol** | EUSDCO8 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gwasanaeth Cyhoeddus, Gweithredwyr Prosesau, Offer a Pheiriannau, Gweithredwyr Offer a Pheiriannau |
| **Cyfres/Set** | Dosbarthu'r Cyflenwad Dŵr |
| **Geiriau Allweddol** | Wedi'i galibradu, dadansoddi, ymchwilio, dŵr, llif, cyflenwad |